Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Timpson**
Yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Gyfiawnder

Cadeirydd
Bwrdd Monitro Annibynnol
CEM/STI y Parc
Heol Hopcyn John
Coity
Pen-y-bont ar
Ogwr CF35
6AP

**Cyf MoJ:** SUB133416

17 Ebrill 2026

Annwyl Gadeirydd,

**ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL CEM/STI Y PARC AR GYFER 1 Hydref 2024 – 30 MEDI 2025**

Diolch i chi am adroddiad blynyddol manwl ac ystyriol eich Bwrdd. Rwy'n gwerthfawrogi'r ymroddiad sylweddol rydych chi a'ch cydweithwyr wedi'i ddangos yn ystod blwyddyn a oedd yn amlwg yn un anodd. Mae eich gallu i gynnal prosesau craffu ystyrlon, er eich bod yn gweithredu gyda llai o lawer o staff, i'w ganmol ac rwy'n ddiolchgar am yr eglurder a'r gofal yr ydych wedi'u rhoi wrth gyflwyno eich sylwadau ar draws sefydliad mor gymhleth.

Roedd yn ddrwg iawn gennyf ddarllen am yr wyth marwolaeth a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae pob marwolaeth yn drasiedi ac rwy'n cydymdeimlo'n fawr â theuluoedd a ffrindiau'r rheini sydd wedi colli anwyliaid. Mae argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn cael eu trin gyda'r difrifoldeb mwyaf ac mae gwaith yn parhau i sicrhau bod yr hyn a ddysgir o'r ymchwiliadau hyn yn cael ei gymhwyso'n llawn.

Rydych chi'n codi pryderon difrifol am yr oedi o ran archwiliadau fetio Shared Services Connected Limited (SSCL) a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar lefelau staffio CEF/STI y Parc. Rwy'n cydnabod pa mor aflonyddgar yw hi pan na ellir defnyddio swyddogion hyfforddedig oherwydd nad yw eu harchwiliad fetio wedi'i gwblhau eto. Mae hyn hefyd wedi effeithio ar recriwtio a lleoli staff ar draws gofal iechyd, addysg ac arlwyo, gan roi pwysau ychwanegol ar drefn sydd eisoes dan bwysau. Mae fetio at ddibenion diogelwch yn hanfodol i gynnal diogelwch ac uniondeb ein carchardai. Fodd bynnag, mae niferoedd recriwtio ar draws HMPPS a darparwyr dan gontract wedi cynyddu'n sylweddol ac mae archwiliadau diogelu ychwanegol wedi cael eu cyflwyno i gryfhau safonau diogelwch cenedlaethol. Mae'r newidiadau angenrheidiol hyn wedi ymestyn amseroedd fetio. Rwy'n deall y rhwystredigaeth y mae hyn yn ei achosi ac rwyf am eich sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa. Mae staff ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith o brosesu ceisiadau bellach wedi cael eu recriwtio, gyda'r garfan newydd gyntaf yn dod yn weithredol ym mis Rhagfyr 2025, a rhagor o dimau'n cael eu hychwanegu drwy gydol hanner cyntaf 2026. Wrth i'r gweithlu estynedig hwn gyrraedd ei gapasiti llawn, bydd amseroedd fetio yn parhau i wella. Mae adnoddau hyblyg a goramser hefyd wedi cael eu defnyddio i leihau ôl-groniadau ac mae Pwyntiau Cyswllt Fetio lleol wedi cael eu cryfhau i gefnogi'r gwaith o brosesu ceisiadau'n effeithlon.

Nodaf adroddiad y Cyfarwyddwr o'r heriau penodol sy'n wynebu CEM/STI y Parc, gan gynnwys nifer y swyddogion hyfforddedig sy'n aros am archwiliad fetio. Rwy'n croesawu'r cydweithio agos rhwng G4S a HMPPS i flaenoriaethu achosion CEF/STI y Parc a sicrhau bod modd defnyddio staff sydd newydd gael eu hyfforddi cyn gynted â phosibl. Bydd y bartneriaeth hon yn parhau hyd nes y bydd y perfformiad yn sefydlogi.

**Ff** +4420 3334 3555
**F** +44870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy

102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y diwygiadau sylweddol a gyflwynwyd drwy'r Ddeddf Ddedfrydu, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Ionawr 2026, yn rhoi adnoddau cliriach a mwy effeithiol i lysoedd dorri'r cylch o droseddwyr llai difrifol sy'n mynd i'r ddalfa dro ar ôl tro. Mae'r Ddeddf yn ehangu'r defnydd o barthau cyfyngu i amddiffyn dioddefwyr ac fe'i hategir gan gynnydd sylweddol yng nghyllideb y gwasanaeth prawf, hyd at £700 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gryfhau cyfiawnder cymunedol a chynyddu'r gallu i fonitro troseddwyr drwy dagio. Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi mewn technoleg newydd i leihau beichiau gweinyddol a sicrhau y gall staff rheng flaen ganolbwyntio ar y gwaith sy'n lleihau aildroseddu fwyaf.

Roedd y pwysau a ddisgrifiwch yn ystod y cyfnod hwn yn sylweddol. Rydych chi'n adrodd am lefelau uwch o hunan-niweidio bwriadol, trais parhaus ar draws y carchar ac anawsterau cyflawni'r gyfundrefn oherwydd prinder staff, oedi o ran archwiliadau fetio a'r nifer uchel o staff sydd eu hangen i oruchwylio carcharorion unigol wedi iddynt gael eu derbyn i ysbyty allanol. Mae sylwadau eich Bwrdd ar y rhwystredigaeth a achosodd hyn i garcharorion a'i effaith ar lesiant a gweithgarwch pwrpasol yn cael eu mynegi'n glir ac yn sensitif. Fodd bynnag, fe'm calonogwyd gan eich cydnabyddiaeth o arweinyddiaeth gref yn yr Uned Pobl Ifanc, y cynnydd o ran mynd i'r afael ag eitemau anghyfreithlon a datblygu mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth cadarnhaol, gan gynnwys cefnogaeth i garcharorion LHDTC+.

Mae ymatebion HMPPS a phartneriaid gofal iechyd i'r materion eraill rydych chi'n eu codi wedi'u nodi yn yr atodiad.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau'n cydnabod y cyfraniad pwysig y mae aelodau Byrddau Monitro Annibynnol yn ei wneud ar draws yr ystâd ac rydym yn diolch i chi am eich ymroddiad parhaus ar ran CEF/STI y Parc.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf a Lleihau Aildroseddu**

# CEF/STI y PARC: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 Hydref 2024 – 30 Medi 2025

## Sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF ar faterion a godwyd yn yr adroddiad

### Staffio a Chapasiti'r Uned Rheoli Troseddwyr

Mae HMPPS yn cydnabod y pwysau ar Uned Rheoli Troseddwyr CEF/STI y Parc yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae pwysau poblogaeth genedlaethol, rhoi mesurau capasiti ychwanegol dros dro ar waith a gweithredu cynlluniau rhyddhau cynnar wedi cyfrannu at lwyth achosion anarferol o uchel. Mae gwaith ymgysylltu'n mynd rhagddo rhwng HMPPS a G4S i asesu lefelau staffio presennol a deall y ffactorau sy'n cyfrannu at y pwysau hwn. Bydd yr asesiad hwn yn helpu i benderfynu a oes angen addasiadau o ran adnoddau. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf Ddedfrydu yn cynnwys ystyried y ffordd orau i Unedau Rheoli Troseddwyr gefnogi strwythur dedfrydau yn y dyfodol. Bydd hyn yn rhan o'r rhaglen parodrwydd i weithredu ehangach sy'n cael ei datblygu ar draws HMPPS.

### Capasiti Deintyddol a Chyfraddau Canslo Uchel

Mae'r ddarpariaeth ddeintyddol wedi'i chyfyngu gan brinder lle clinigol a nifer fawr o apwyntiadau wedi'u canslo. Mae cydweithwyr yn CEF/STI y Parc a GIG Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i wella presenoldeb drwy gyfathrebu'n well â charcharorion am apwyntiadau, gwella amserlenni fel bod gofal iechyd yn cael ei flaenoriaethu'n briodol a defnyddio gweithwyr cymheiriaid i annog presenoldeb. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wneud y defnydd gorau posibl o'r ystafell ddeintyddol bresennol i gynyddu canlyniadau clinigol. Mae partneriaid gofal iechyd yn parhau i adolygu'r gwasanaeth a ddarperir i wella mynediad at ofal deintyddol brys ac arferol.

### Oedi yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys a Monitro Apwyntiadau Gofal Iechyd gyda Hebryngwr

Mae strwythurau llywodraethu rhwng G4S a'r Bwrdd Iechyd wedi cael eu cryfhau i wella'r gwaith o oruchwylio carcharorion wrth iddynt gael eu trosglwyddo o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a chryfhau gwydnwch gwasanaethau. Mae cynlluniau gwella ar y cyd yn cael eu monitro'n rheolaidd ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i negodi amseroedd aros byrrach mewn ysbytai lleol. Mae cyfleoedd i ddod â gwasanaethau clinigol mwy arbenigol i'r carchar, fel niwroleg a chardioleg, yn cael eu datblygu ar gyfer 2026. Mae'r carchar a phartneriaid gofal iechyd hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer defnyddio parafeddygon ar y safle i leihau'r angen i fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys allanol, ac mae G4S wedi ymrwymo i gynyddu nifer y swyddogion sydd ar gael i hebrwng carcharorion i'r ysbyty.